DEVELOPMENT TRUSTS ASSOCIATION WALES
CYMDEITHAS YMDDIRIEDOLAETHAU DATBLYGU CYMRU
Community **Enterprise** | Community **Assets**
**Menter** Gymunedol | **Asedau** Cymunedol

# Pecyn Swydd - recriwtio hydref 2022

## Rhaglen Mentora Cyfoed ar gyfer Camau Cynaliadwy Cymru*

* Camau Cynaliadwy Cymru yw enw Cronfa Gweithredu Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer cymunedau sydd yn taclo newid hinsawdd. Dyma enw dros dro DTA Cymru ar gyfer y Rhaglen Mentora Cyfoed.

### Cyflwyniad

Mae Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTA Cymru), gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (CGLG) ac yn defnyddio cronfeydd Cyfrifon Segur Llywodraeth Cymru (LlC), yn cychwyn ar raglen fentora saith mlynedd sydd yn canolbwyntio ar weithredu hinsawdd a chynaliadwyedd, gyda'r bwriad o ddatgloi galluoedd cyfunol cymunedau ledled Cymru.

Mae hyn yn adeiladu ar brofiad Adfywio Cymru – o gadw cronfa o fentoriaid cyfoed hyderus a galluog (aelodau o'r gymuned sydd eisoes wedi gweithredu ac yn awyddus i rannu) yn ganolog iddo – gan hefyd ymgymryd ar ddull newydd o allgymorth ac ymgysylltu i gynorthwyo cymunedau Cymru i ymateb ar gyflymder ac ar raddfa sydd yn gymesur â'r heriau a ddaw yn sgil newid hinsawdd. Dyma'r degawd i weithredu.

Fel sydd yn arferol i ni, rydym yn chwilio am gymunedau annibynnol a mentrus, ac mae'r rhaglen yma yn ymwneud â helpu cymaint â phosib i gymryd y camau cyntaf a dechrau gweithredu'n ymarferol. Wrth dyfu cymuned o ymarferwyr ymarferol, gobeithiwn hefyd y daw symudiad am newid i'r amlwg yng Nghymru. Bydd y rhai sydd eisiau tyfu a gwneud mwy yn gallu derbyn cefnogaeth i wneud hynny.

### Y tîm rydym yn chwilio amdano

Os hoffech chi fod yn rhan o helpu creu Cymru gynaliadwy - o lawr gwlad i fyny - yna mae gan DTA Cymru amrywiaeth o swyddi parhaol:

- **(Cyd) Bennaeth Allgymorth ac Ymgysylltu (Hwyluswyr)** – 3 diwrnod yr wythnos ar £34,000 pro rata i arwain y rhaglen yma ac i adeiladu ac arwain y gwaith allgymorth ledled Cymru yn benodol. *Nodir - bydd hyn yn rhannu swydd gyda'r (Cyd) Bennaeth Allgymorth ac Ymgysylltu (Mentoriaid Cyfoed) presennol, Matt Swan.*
- **Hwyluswyr** – rydym yn chwilio am wyth unigolyn, pob un i weithio'n hyblyg dau ddiwrnod y mis fel tîm sydd yn cwmpasu Cymru ac yn ymgysylltu gyda'ch cymunedau. Yn agored i rai hunangyflogedig, rhai sydd yn gyswllt â sefydliadau eraill neu gellir ystyried

TWE (PAYE) o fewn DTA Cymru. Er gwybodaeth, £250 yw'r raddfa ddyddiol i rai hunangyflogedig.
- **Pennaeth Cyfathrebu** – 3 diwrnod yr wythnos ar £28,000 pro rata. Tra'n gyfrifol am gyfathrebiadau'r rhaglen byddech yn ymuno â'n Uwch Dîm Rheoli ac yn dylanwadu ar strategaeth cyfathrebu ehangach DTA Cymru
- **Gweinyddwr(wyr)** – dwy swydd 3 diwrnod yr wythnos ar £21,000 pro rata. Rhyngoch byddech yn cefnogi'r Rhaglen Mentora Cyfoed a gwaith DTA Cymru ar ddatblygu mentrau cymdeithasol.
- **Mentoriaid Cyfoed** – ymarferwyr ar y rheng flaen sydd yn gallu, ac yn barod i rannu eu profiad gyda chymunedau eraill sydd wrth galon y rhaglen yma. Mae DTA Cymru eisoes yn gweithio gyda chronfa o fentoriaid cyfoed profiadol drwy'r Rhaglen Adfywio Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru. Byddem yn gweithio gyda nhw i'w hymgorffori i'r Rhaglen Mentora Cyfoed ar gyfer Camau Cynaliadwy Cymru hwyrach ymlaen yn 2022. Byddem yn eu cyflogi ar gyfradd dydd pan fydd angen eu sgiliau a'u profiadau. Os ydych chi'n teimlo y gallech chi gynnig rhywbeth ac yn awyddus i rannu eich profiad, yna cysylltwch a mynegwch eich diddordeb mewn ymuno â'r gronfa.

## Gwybodaeth am DTA Cymru - https://dtawales.org.uk/cy/

Mae Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTA Cymru) yn fudiad aelodaeth annibynnol i ymarferwyr sydd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r rhwydwaith cynyddol o fentrau cymunedol yng Nghymru.

Tîm craidd bach ydym ni sydd â chyrhaeddiad ac effaith fawr wrth i ni weithio ochr yn ochr a thrwy ein haelodau, cronfa fawr gynyddol o fentoriaid cyfoed ac amrywiaeth o bartneriaid profiadol ledled Cymru. Daw hyblygrwydd gyda thîm craidd bach, ac ystwyther i wneud gwir wahaniaeth mewn degawd ble mae cymunedau yn cael eu herio i chwarae rhan sylweddol mewn adeiladu dyfodol cynaliadwy - yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol - o fewn byd o newid hinsawdd.

Mae'r rhaglen Mentora Cyfoed, cefnogir gan Camau Cynaliadwy Cymru, yn gyfle sylweddol i alluogi cannoedd o gymunedau i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w ardal leol, a pan fydd y rhain yn dod at ei gilydd fel cymuned ymarfer yna byddant yn cynorthwyo Cymru i gyflawni ei huchelgeisiau fel cenedl gynaliadwy.

Mae'r ochr Allgymorth ac Ymgysylltu DTA Cymru yn cael ei redeg ochr yn ochr â'n gwaith Datblygu Menter, sydd yn gweithio i gefnogi sefydlu a thyfu busnesau hyfyw seiliedig ar asedau sydd yn eiddo i'r gymuned. Fel rhan o dîm cyflawni Busnes Cymdeithasol Cymru, mae'n gweithio hefyd ar fwyd cynaliadwy, cefnogaeth newid hinsawdd i fusnesau, caffael a thai, ymysg nifer o weithgareddau eraill.

DEVELOPMENT TRUSTS ASSOCIATION WALES
CYMDEITHAS YMDDIRIEDOLAETHAU DATBLYGU CYMRU
Community **Enterprise** | Community **Assets**
**Menter** Gymunedol | **Asedau** Cymunedol

## Gwybodaeth am y rhaglen Mentora Cyfoed o fewn Camau Cynaliadwy Cymru

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (CGLG) yn defnyddio arian Cyfrifon Segur i ariannu cyfres o fentrau Camau Cynaliadwy Cymru yng Nghymru.

1. Mae DTA Cymru yn cynnal y rhaglen Mentora Cyfoed
2. Yn rhedeg ochr yn ochr â hyn bydd rhaglen Grantiau Mentoreion Camau Cynaliadwy Cymru
3. Grantiau Gweithredu Hinsawdd mwy Camau Cynaliadwy Cymru sydd wedi agor ar gyfer ceisiadau yn ddiweddar
4. Rhaglen pobl ifanc Camau Cynaliadwy Cymru sydd yn cael ei ddatblygu

Bydd DTA Cymru yn lansio'r rhaglen Mentora Cyfoed yn fuan yn 2023 yn canolbwyntio ar weithredu hinsawdd a chynaliadwyedd, gyda'r bwriad o ddatgelu galluoedd cyfunol cymunedau yng Nghymru.

Bydd y gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth a chyngor i grwpiau cymunedol, elusennau a mentrau cymdeithasol ar yr amrywiaeth ehangaf bosib o ffyrdd gellir gweithredu ar newid hinsawdd a chynaliadwyedd, gan gwmpasu'r ddau faes penodol ar gyfer gweithredu amgylcheddol a galluoedd mwy cyffredinol er mwyn cael yr effaith mwyaf posib.

Byddem yn blaenoriaethu cynulleidfaoedd o gymunedau ledled Cymru sydd ddim yn ymgysylltu â'r maes newid hinsawdd yn draddodiadol, ond gall effaith newid hinsawdd gael yr effaith fwyaf arnynt.

Bydd y rhaglen saith mlynedd yma, sydd heb dderbyn enw swyddogol ar gyfer y cyhoedd eto, yn adeiladu ar ddegawd o brofiad yn trosglwyddo'r rhaglen Adfywio Cymru ac yn adlewyrchu'r heriau cynyddol enbyd sydd yn ein hwynebu nawr ac yn y degawd sydd i ddod. Mae newid hinsawdd a byw'n gynaliadwy wedi dod yn fater i bawb, nid i'r ychydig sydd yn ymroddedig. Dim ond ychydig o flynyddoedd byr sydd gennym i animeiddio a galluogi symudiad cymunedol o fewn Cymru i weithredu'n uniongyrchol ar yr argyfwng hinsawdd.

Ariannir y rhaglen yma yn gyfan gwbl gan gynllun grant *Camau Cynaliadwy Cymru: Mentora* Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.
(https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/sustainablestepswales-mentoring)

Gall grwpiau sydd yn cymryd rhan yn y rhaglen yma wneud cais am grant hyd at £15 mil o'r cynllun hwn.


Cynllun Cyfrifon
**Camau Cynaliadwy Cymru**

Dormant Accounts
**Sustainable Steps Wales**

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

DEVELOPMENT TRUSTS ASSOCIATION WALES
CYMDEITHAS YMDDIRIEDOLAETHAU DATBLYGU CYMRU
Community **Enterprise** | Community **Assets**
**Menter** Gymunedol | **Asedau** Cymunedol

# Swydd Ddisgrifiad – Gweinyddwyr x 2

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd | Gweinyddwr |
| Rheolir gan: | Pennaeth Cyllid (neu Brif Weithredwr, i'w gadarnhau) |
| Cyfradd tâl: | £21,000 y flwyddyn (cyfateb i swydd amser llawn) |
| Dyddiau'r wythnos | 3 diwrnod yr wythnos (0.6 cyfateb i amser llawn) |
| Cyfnod cyflogaeth | Parhaol |
| Oriau gwaith | 7 awr y dydd. Mae DTA Cymru yn gosod oriau swyddfa graidd rhwng 10yb a 4yp ond gellir cynnig hyblygrwydd wrth drafod gyda rheolwr llinell. Efallai bydd gofyn i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau weithiau er mwyn cyrraedd anghenion y swydd. |
| Lleoliad y swydd | Mae yna swyddfa DTA Cymru yng Nghaerdydd. Cefnogir gweithio o gartref - neu gefnogaeth i weithio o 'ganolfan swyddfa leol i chi' - yng Nghymru. |
| Disgwyliadau teithio (lleoliad gwaith) | Cedwir y disgwyliad i chi fod mewn swyddfa DTA Cymru ac yn rhan o dîm DTA ar gyfnodau rheolaidd a rhesymol |
| Disgwyliadau teithio (cyflawni'r swydd) | Nid oes disgwyl i chi deithio o amgylch Cymru fel rhan o'r swydd yma. |
| Crynodeb o'r swydd | Bydd un penodiad yn cymryd y prif gyfrifoldeb dros weinyddu'r rhaglen mentora cyfoed Camau Cynaliadwy Cymru. Bydd y penodiad arall yn cefnogi'r ochr datblygu busnes a menter DTA Cymru. Bydd pob swydd yn cefnogi aelodau unigol o'r tîm ynghyd â phartneriaid cysylltiedig a'n cronfa o fentoriaid a chymdeithion. |

| | |
|---|---|
| Rolau / Cyfrifoldebau | Adolygu, diweddaru ac yna gweinyddu amrywiaeth o systemau swyddfa i gefnogi trosglwyddiad y rhaglen, mewn meysydd megis mewnbynnu data cywir a chadw cofnodion, cadw cofnodion prynu a thalu ayb.<br><br>Darparu cefnogaeth ysgrifenyddol a gweinyddol gan gynnwys prosesu geiriau, rheoli dyddiadur a theithio ayb, i gefnogi ein rhaglenni gwaith.<br><br>Arwain ar ymdrin â gweinyddu'r rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru o ddydd i ddydd, yn unol â chais Rheolwyr y Rhaglen gan gynnwys cytundebau proses, cytundebau, contractau, ceisiadau taliadau a gwaith papur fel arall yn brydlon ac yn ddibynadwy. Mynd ar drywydd cytundebau, contractau, taliadau sydd heb eu cyflawni yn rhagweithiol.<br><br>Helpu gyda chynhyrchu adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd gyda Grwpiau Llywio, neu gyllidwyr / cleientiaid a phartneriaid a, ble'n briodol, mynychu cyfarfodydd ynghyd â staff DTA eraill.<br><br>Gweinyddu'r broses ymgeisio gymunedol a chynnal cofnodion cyswllt, Camau Cynaliadwy Cymru (rhaglen Mentora Cyfoed) a chronfeydd data eraill. Delio gydag ymholiadau cymunedol gan gynnwys yr e-bost info@<br><br>Ein gobaith yw y bydd gan un ymgeisydd llwyddiannus y ddawn a'r diddordeb mewn darparu cyfathrebiadau a gwybodaeth i aelodau, cydlynwyr, partneriaid a sefydliadau allanol eraill ar y cyd â'n Rheolwr Cyfathrebu. Gall hyn gynnwys helpu gyda rheoli cynnwys a diweddaru gwefannau / cyfrif cyfryngau cymdeithasol a thasgau Marchnata a Chyfathrebu fel arall, yn ôl yr angen. Gellir rhoi hyfforddiant ar hyn.<br><br>Gobeithiwn y bydd gan un ymgeisydd llwyddiannus y ddawn a'r diddordeb i gadw llyfrau o ddydd i ddydd ac, ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid, cynorthwyo gyda gweinyddu systemau cyfrifon a chofnodion, prosesu anfonebau a mewnbynnu data gan ddefnyddio SAGE Instant Accounts. Cydgysylltu ag ymgynghorwr cyfrifon a chwmni cyflogres allanol. Gellir rhoi hyfforddiant ar hyn.<br><br>Gobeithiwn y bydd gan un ymgeisydd llwyddiannus y ddawn a'r diddordeb mewn cefnogaeth systemau TG ac yn cysylltu gyda Ymgynghoriaeth Cefnogi TG ar gynnal a chadw a bod yn bwynt cyswllt cyntaf i staff am faterion o'r fath. Gellir rhoi hyfforddiant ar hyn. |

Gobeithiwn y bydd un ymgeisydd llwyddiannus wedi sefydlu yng Nghaerdydd ac yn cymryd rheolaeth o'r gofod swyddfa (tra bod hyn yn gallu darparu lleoliad gwaith, nid yw hyn yn orfodol), gellir wedyn gefnogi a rheoli'r swyddfa ac anghenion TG tîm o staff mentora a chymdeithion sydd yn gweithio o bell.

Gobeithiwn y bydd gan un ymgeisydd llwyddiannus y ddawn a'r diddordeb mewn materion staff ac Adnoddau Dynol ac yn cefnogi recriwtio, adolygiadau staff a chadw cofnodion AD.

**Manyleb y person**

Byddech yn un o ddau Weinyddwr newydd rhan amser (3 diwrnod yr wythnos yr un) o fewn DTA Cymru. Rhyngoch byddech yn rhannu cyfrifoldeb am ddatblygu, gweithredu, rheoli a chynnal systemau gweinyddol swyddfa a sefydliadol effeithiol, gyda setiau sgiliau eich hunain sydd yn ategu ei gilydd. Bydd y ddau ohonoch yn arwain ar weinyddu un agwedd o DTA Cymru ynghyd â chefnogi gyda gweinyddiaeth y llall.

**Hanfodol**

Siarad Cymraeg neu yn dangos parodrwydd i ddysgu'r iaith.

O leiaf dwy flynedd o brofiad amlwg mewn swydd neu gapasiti gweinyddu a chymorth tebyg (gall fod mewn unrhyw faes).

Lefel uchel o sgiliau trefnu, y gallu i wneud pethau ar liwt eich hun ac addasu. Sgiliau rhyngbersonol da a phrofiad o weithio mewn tîm bach.

Sgiliau cyfathrebu ar lafar gwych ac yn glir, cymwynasgar ac yn gwrtais ar y ffôn. Yn ymroddgar, cymwynasgar, trefnus ac yn hyblyg.

Lefel uchel o brofiad gyda MS Office - gan gynnwys Word, Excel, PowerPoint, Outlook Email a Calendar ac Internet Explorer.

Sgiliau ysgrifenedig rhagorol a'r gallu i ddrafftio gohebiaeth ac adroddiadau ac i gadw cofnodion cyfarfodydd cywir. Sgiliau teipio cywir a'r gallu i gynhyrchu adroddiadau a thaenlenni i derfynau amser.

Sgiliau rheoli prosiect, rheoli amser a blaenoriaethu da.

Y gallu i reoli llwyth gwaith eich hun ac i weithio i derfynau amser heb oruchwyliaeth agos.

| | |
|---|---|
| Dymunol | Gwybodaeth am weithdrefnau cyfrifon (prosesu anfonebau a thaliadau, cofnodi incwm a gwariant).<br><br>Gwybodaeth gadarn o gyfryngau cymdeithasol a strategaethau cyfathrebu. Gwybodaeth o wefannau, CMS, blogiau a defnyddio fforymau a sut maent yn gweithio.<br><br>Profiad o drefnu a rheoli digwyddiadau, cyfarfodydd neu seminarau/cynadleddau, a sgiliau Marchnata eraill.<br><br>Llythrennedd cyfrifiadur uchel a diddordeb gweithredol mewn ymdrin â materion yn ymwneud â chyfrifiaduron.<br><br>Yn fodlon gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd ac aros oddi cartref dros nos gyda rhybudd o flaen llaw. |

DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau ceisiadau | Dydd Iau 22ain Medi - 4yp |
| Diwrnod cyfweliad / dewis | Dydd Mawrth 4ydd Hydref (un ai mewn person yng Nghaerdydd neu dros Zoom) |
| Dyddiad cychwyn disgwyliedig | Cyn gynted â phosib |
| Lansiad swyddogol y rhaglen | Dydd Mawrth 3ydd Ionawr 2023 |

## Sut i wneud cais.

Cwblhewch y ffurflen gais a'i ddychwelyd i info@dtawales.org.uk os gwelwch yn dda, gyda theitl y swydd yn y llinell pwnc.

Cwblhewch y Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal hefyd os gwelwch yn dda:
https://forms.gle/Ci9TYWotyaP15hRN7

Mae'r ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal yn ddienw a ni fydd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses llunio rhestr fer. Dim ond ar gyfer monitro recriwtio a darparu data ystadegol defnyddir y wybodaeth yma.

Cynllun Cyfrifon
Camau Cynaliadwy Cymru

Dormant Accounts
Sustainable Steps Wales

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

**Development Trusts Association Wales**, 17 West Bute Street, Cardiff CF10 5EP

**Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru**, 17 Stryd Gorllewin Bute, Caerdydd CF10 5EP Tel/Ffôn **029 2019 0260** Email/E-bost **info@dtawales.org.uk** Website/Gwefan **www.dtawales.org.uk**

Company registration no./Rhif cofrestru'r cwmni **04966246**

Cynllun Cyfrifon
**Camau Cynaliadwy Cymru**

Dormant Accounts
**Sustainable Steps Wales**

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND